PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU OEDOLION A CHYMUNEDOL

DYDD LLUN, 18 CHWEFROR 2019

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd McGarry(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Ahmed, Carter, Ebrahim, Goddard, Jenkins a/ac Molik |

60 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Lent.

61 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw rai.

62 : CYNLLUN CORFFORAETHOL DRAFFT 2019/20 A CHYNIGION CYLLIDEBOL DRAFFT 2019/20

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau i'r eitem hon yn rhoi cyfle iddynt i ystyried yr eitemau hynny sydd y Cynllun Corfforaethol drafft a'r Cynigion Cyllidebol drafft y mae'r Pwyllgor yn gyfrifol amdanynt. Byddai'r Cabinet yn ystyried y rhain ddydd Iau 21 Chwefror, cyn cyfarfod y Cyngor ar 28 Chwefror.

Rhoddodd y cyfarfod gyfle i'r Aelodau i ystyried y Cynllun Corfforaethol Drafft a'r cynigion drafft ar gyfer y Gyllideb. Rhoddodd yr adroddiad amlinelliad o'r gyllideb drafft a'r ymrwymiadau yn y Cynllun Corfforaethol y mae'r Pwyllgor yn gyfrifol amdanynt. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n cyfeirio'r Aelodau at baragraffau perthnasol y blaenadroddiad yn ôl yr angen.

Byddai Aelodau yn gyntaf yn cael gwybodaeth am y Trosolwg Corfforaethol o gynigion y gyllideb ddrafft.

Yna byddai'r cynigion ar gyfer y gyllideb a rhannau perthnasol o'r Cynllun Corfforaethol yn cael eu hystyried mewn tri rhan, sef; y Gyfarwyddiaeth Tai a Chymunedau sy'n berthnasol i Bortffolio'r Cynghorydd Thorne, y Gyfarwyddiaeth Tai a Chymunedau sy'n berthnasol i Bortffolio'r Cynghorydd Elsmore a Chyfarwyddiaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion.

Trosolwg Corfforaethol
Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Chris Weaver, yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad; Christine Salter, y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Adnoddau; ac Allan Evans, Rheolwr Gweithredol Cyfrifyddiaeth yn yr adran Adnoddau.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad lle dywedodd fod bwlch o £32.4 miliwn yn y gyllideb, a fyddai'n cael ei gau drwy godi'r dreth gyngor gan 4.9% a gyda £19 miliwn o arbedion cyfarwyddiaeth, a'r rhan fwyaf o'r rheini'n gynigion a aeth i ymgynghori yn yr Hydref. Roedd yn hapus i ddweud bod y Model Cadernid Ariannol yn cael ei roi ar waith bron yn llawn ar wahân i £200 mil a bod y gyllideb wedi'i chynnig gan ystyried yr Uchelgais Prifddinas, deddfwriaeth berthnasol

a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Fodd bynnag, pwysleisiwyd bod y Cyngor dros y degawd diwethaf wedi gorfod dod o hyd i werth £200 miliwn o arbedion ac y byddai angen dod o hyd i werth 105 miliwn arall dros y 4 blynedd nesaf.

Rhoddwyd cyflwyniad i'r Aelodau ar gynnig cyllideb y Cabinet gan Christine Salter, ac ar ôl hynny gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau.

Gofynnodd yr Aelodau a yw'r cynnydd wedi'i gynnig yn y Dreth Gyngor yn fforddiadwy i drigolion. Esboniodd y swyddogion fod y cynnydd arfaethedig yn dybiaeth dechnegol i gyflawni cyllideb gytbwys; dim ond hyn a hyn o bethau y gellir ei wneud i gyflawni hyn, cynyddu'r dreth gyngor, arbedion cyfarwyddiaethau a defnyddio arian wrth gefn. Dywedodd yr Aelodau Cabinet fod y dybiaeth yn annhebygol o fynd dros 4.9% bob blwyddyn dros y 4 blwyddyn nesaf. Ychwanegwyd y bydd rhai pobl yn cael dyfarniad cyflog i dalu am y cynnydd hwn ond nodwyd na fyddai eraill yn cael y wobr hon. Pwysleisiwyd bod angen diogelu gwasanaethau a'i bod yn her go iawn. Pennir cyllideb ddangosol yn yr haf, mae'r Cyngor yn dadlau ar hyn wedyn ac eto ym mis Chwefror pennir y gyllideb eto.

Gofynnodd yr Aelodau am y cynigion arbedion statws RAG Coch a Choch/Oren, a oes unrhyw brofion sy'n cael eu gwneud trwy'r flwyddyn i sicrhau y gellir cyflawni'r arbedion hyn neu a oes modd dileu unrhyw rai cyn eu hystyried yn anghyflawniadwy. Dywedodd yr Aelod Cabinet nad yw unrhyw rai wedi'u dileu, maent yn disgwyl i'r arbedion gael eu cyflawni; eleni o edrych yn ôl maent wedi dileu un swm o £53k oedd mewn perthynas â'r Consortiwm. Dylai'r arbedion wedi'u cynnig fod yn gyflawniadwy, mae cyllideb wrth gefn o £3 miliwn yn y gyllideb ei hun felly mae hynny'n rhoi rhywfaint o gysur o bersbectif corfforaethol. Byddai'r canolbwynt yn parhau i fod ar gynigion Coch a Choch/Oren; gwybyddir y risgiau ac yn aml maent yn dibynnu ar ffactorau allanol i'w galluogi i symud at y cam cynllunio. Ychwanegwyd, pe bai angen i wasanaethau gael eu trawsnewid a'u hail-siapio yna byddai elfen o risg trwy'r amser.

Nododd yr Aelodau lefel y cynigion wedi'i gynnig ar gyfer y gyfarwyddiaeth a nodon nhw, yn hanesyddol, nad yw'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cyflawni'r arbedion wedi'u cynnig iddynt; gofynnodd yr Aelodau a oedd o cynigion hyn yn gyflawniadau mewn gwirionedd ar 36% o'r arbedion cyfan wedi'u cynnig. Esboniodd yr Aelod Cabinet fod 36% yn ymddangos i fod yn swm mar, mae gan y Gwasanaethau Cymdeithasol y gyllideb fwyaf felly mewn cyd-destun mae ganddynt lai i'w arbed na gwasanaethau eraill. Byddai arbedion yn her gyda rhywfaint o risg gan arweinir y gwasanaeth gan bobl; yn gyffredinol mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael cyllideb fwy; Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi dangos perfformiad cyllideb da eleni felly mae hyder mor dda ag y gall fod. Ychwanegodd y swyddogion eu bod yn monitro cyllidebau'n fisol gan gynnwys arbedion, roedd hyn yn bwysig am resymau gwydnwch, roedd y Prif Weithredwr wedi'i wneud yn glir ei fod yn disgwyl i'r arbedion gael eu cyflawni.

Nododd yr Aelodau y cynnydd yn y Dreth Gyngor bob blwyddyn a gofynnon nhw a oedd yn amser edrych am ffyrdd mwy creadigol ac arloesol i fynd i'r afael â'r sefyllfa ariannol dymor canolig a hirdymor. Ni chytunodd yr Aelod Cabinet gan ei fod yn credu bod y Cyngor wedi ymateb yn wych i'r her o ran cyllidebau dros y blynyddoedd diwethaf gyda meddwl uchelgeisiol iawn mewn gwasanaethau megis hamdden a llyfrgelloedd; bellach byddai canolbwynt ar wastraff gan fod angen gwella gwasanaethau ond roedd yn hyderus y gellir cyflawni hyn. Ychwanegodd fod y

Cyngor wedi profi ei fod yn gallu cyflawni rhaglen trawsnewid sylweddol, mae'r dreth gyngor yn cael ei chynyddu dim ond ychydig i gau'r bwlch yn y gyllideb ac i gyflawni'r arbedion hyn mae angen llawer o greadigrwydd gan wasanaethau, byddai peidio â chodi'r Dreth Gyngor yn afrealistig.

Roedd yr Aelodau'n bryderus am 'Cefnogi Mwy o Blant yng Nghaerdydd' os nad oes digon o gartrefi i'w cefnogi. Dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai'r penderfyniad i ddod plant yn ôl i Gaerdydd bob amser ar sail anghenion y plentyn; ochr yn ochr â hyn roedd cynlluniau i greu mwy o gartrefi ac roedd cynlluniau i gryfhau'r sefyllfa faethu yng Nghaerdydd hefyd.

Nododd yr Aelodau'r grant £3 miliwn i'r gwasanaethau cymdeithasol a dywedwyd wrthynt fod y grant yn benodol ac yn £30 ledled Cymru. Roedd Caerdydd wedi derbyn £3 miliwn ond roedd twf y Gwasanaethau Cymdeithasol yn llawer mwy na'r swm hwnnw.

Cyfarwyddiaeth Tai a Chymunedau - Portffolio'r Cynghorydd Thorne
Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Lynda Thorne, yr Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau a Jane Thomas Cyfarwyddwr Cynorthwyol Tai a Chymunedau.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Thorne i wneud datganiad a dywedodd ei fod yn falch o gyhoeddi'r cyflwyniad ar y Cynllun Corfforaethol a'r cynigion ar gyfer Cyllideb yr adran Tai a Chymunedau, gan ychwanegu ei bod yn nodedig gweld y Cynllun Corfforaethol yn mynd i'r afael â chysgu ar y stryd, ac nad yw'n fater yn ymwneud â thai yn unig yw ef. Roedd ymateb amlasiantaeth yn cael ei lunio ar hyn o bryd. Roedd cyflwyno mwy o Hybiau a datblygu hybiau lles Cymunedol yn galluogi'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau lleol gwell, yn unol ag anghenion yr ardal, tra'n cyflawni arbedion ariannol trwy gyd-leoli gwasanaethau.

Cafodd yr aelodau gyflwyniad ac wedyn gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau ganddynt;

Nododd yr Aelodau, mewn perthynas â'r CRT, fod buddsoddiad sylweddol yn y maes tai a gofynnon nhw a oedd ffydd y byddai'r cynnydd mewn rhent o 2.4% yn talu am y buddsoddiad hwn a gofynnon nhw sut byddai'r gyllideb hon yn effeithio ar y ddyled yn y CRT gan gadw mewn cof y drafodaeth flaenorol am rent heb ei dalu o ganlyniad i drosglwyddo Credyd Cynhwysol. Esboniodd y swyddogion y byddent yn gallu ymdopi gyda'r CPF am flwyddyn ond dros 30 o flynyddoedd byddai'n dod â heriau sylweddol; roedd Caerdydd wedi disgwyl CPF+1, byddai'r mater hwn yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y pwyllgor craffu yn y dyfodol am fwy o drafodaeth. Ychwanegodd y swyddogion eu bod yn aros i weld canlyniad adolygiad Llywodraeth Cymru o'r polisi rhent; byddai angen i weithredwyr CRT ddod o hyd i arbedion effeithiolrwydd nad ydynt wedi gorfod dod o hyd iddynt yn y gorffennol. Dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai Caerdydd yn gwneud sylwadau i Lywodraeth Cymru am ddileu'r cap gan yr oedd Caerdydd wedi gobeithio cynyddu'r targed.

Croesawodd yr Aelodau y gwariant newydd ar lety i bobl hŷn a gofynnon nhw a oedd unrhyw linellau newydd sy'n gysylltiedig â llety gofal ychwanegol. Dywedodd y swyddogion fod hyn wedi'i gynnwys yn y £27 miliwn ac y byddai cyfraniadau gan bartneriaid hefyd.

Roedd yr Aelodau'n bryderus y byddai'r cynnydd arfaethedig yng nghyfradd y Dreth Gyngor yn gwaethygu hyn gan fod ôl-ddyledion Treth Gyngor yn barod. Esboniodd y swyddogion y byddai'r dybiaeth yn cael ei phrofi'n rheolaidd dros y 4 blynedd nesaf. O ran ôl-ddyledion, mae Caerdydd yn casglu swm mawr o'r rhain ac nid oedd y swyddogion yn ymwybodol o unrhyw gynnydd mewn ôl-ddyledion. Pwysleisiodd y swyddogion bwysigrwydd cefnogaeth a chyngor i bobl sy'n stryglo a byddai hyn yn parhau i gael ei gynnig; mae cyfradd casglu'r Dreth Gyngor yn cael ei chynnal yn dda. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet bod swm mawr o gefnogaeth a gynigir yn yr hybiau ac yn ddiweddar mae'r hybiau wedi bod yn llwyddiannus cael mwy na £11 miliwn o fudd-daliadau i ddinasyddion; nodwyd bod angen cyfathrebu gwell gan fod rhai pobl yn credu i bobl ddi-waith oedd y cyngor a chefnogaeth mewn hybiau nad yw'n wir.

Ceisiodd yr Aelodau sicrwydd na fyddai'r lefelau rhent sy'n cael eu capio'n effeithio ar ansawdd tai'r Cyngor sy'n cael eu hadeiladu; sicrhaodd yr Aelod Cabinet yr Aelodau fod ansawdd y tai'n ardderchog ac y byddai'n parhau i fod felly.

Roedd yr Aelodau'n falch o weld cyllid arall yn cael i roi i'r adran Digartrefedd a Chysgu ar y stryd a gofynnon nhw a fyddai'r cyllid yn cefnogi pobl i ddod oddi ar y stryd neu'n cael ei ddefnyddio i gymryd camau gorfodi yn erbyn cysgwyr ar y stryd mewn pebyll yng nghanol y Ddinas. Sicrhaodd y swyddogion yr Aelodau fod y cyllid i gyd ar gyfer cefnogi pobl i ddod oddi ar y stryd, gan roi'r lefel gywir o gefnogaeth wedi'i theilwra i anghenion unigol. Pwysleisiodd yr Aelod Cabinet nad ydynt yn cymryd camau gorfodi. Roedd yr adran Priffyrdd yn cyhoeddi hysbysiadau i bebyll oedd yn achosi rhwystr, ac ni fyddai'r pebyll yn cael eu symud nes bod gan y bobl rywle i fynd, roedd gweithwyr Allgymorth ar y stryd yn esbonio'r broses i bobl. Credodd yr Aelodau ei bod yn bwysig nad yw cysgwyr ar y stryd yn cael eu trin yn droseddwyr, ond teimlon nhw'n ddiogel gan ei bod yn gallu cal mynediad at wasanaethau.

Gofynnodd yr Aelodau a yw Caerdydd wedi derbyn unrhyw gymorth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â chysgu ar y stryd. Dywedodd y swyddogion ei bod wedi cael rhywfaint o gyllid ychwanegol ond ei fod yn gyfyngedig a bod rhaid i Gaerdydd wneud cais amdano, yn anffodus yn aml mae'r arian yn dod yn hwyrach yn y flwyddyn ariannol. Ychwanegodd y swyddogion fod Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi yn y Cynllun Tŷ yn Gyntaf a bydd dau gynllun yn gweithredu'n fuan, cynllun Cyngor newydd ochr yn ochr â chynllun Byddin yr Iachawdwriaeth.

Mewn perthynas â Thŷ yn Gyntaf, roedd yr Aelodau'n bryderus gan fod y sector rhent preifat yn lleihau. Esboniodd y swyddogion y byddai'r cynllun newydd yn adeiladu ar gynllun Byddin yr Iachawdwriaeth gyda thai'r sector rhent preifat gan fod y rhain mewn lleoliadau gwahanol i stoc tai'r Cyngor, roedd yn anodd ond mae eiddo rhent preifat ar gael a byddai'r cynllun peilot hwn yn profi hynny; byddai adroddiad ar hyn yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y pwyllgor yn y dyfodol.

Cyfarwyddiaeth Tai a Chymunedau - Porffolio'r Cynghorydd Elsmore
Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Susan Elsmore, yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant a Jane Thomas, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Tai a Chymunedau.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Elsmore i wneud datganiad a dywedodd ei bod yn falch o weld mwy o waith ar y gweill i rymuso ac i alluogi pobl i aros yn eu cartrefi am hirach, roedd ffordd newydd o ddarparu gofal cartref yn unol â'r

strategaeth tai i bobl hŷn, i ddarparu gwasanaethau mor effeithiol ac mor effeithlon â phosibl. Roedd hefyd gwaith ar y gweill mewn perthynas â mynd i'r afael ag allgau cymdeithasol trwy gynlluniau amrywiol gan gynnwys gwaith pontio'r cenedlaethau.

Cafodd yr aelodau gyflwyniad ac wedyn gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau ganddynt;

Roedd yr Aelodau'n bryderus y byddai'r arbedion yn golygu effaith ar wasanaethau ond sicrhaodd y swyddogion yr Aelodau fod yr arbedion yn aildrefniad mwy o wasanaethau swyddfa gefn.

Cyfeiriodd yr Aelodau at y grant Galluogi a gofynnon nhw a fyddai rhywbeth yn cymryd ei le pe bai'n cael ei stopio. Nid oedd y swyddogion yn ymwybodol ei fod yn dod i ben yn fuan. Ychwanegodd y swyddogion fod y rhan fwyaf o'r SBA yn cael ei ariannu gan grantiau.

Roedd yr Aelodau'n falch o weld y byddai'r pwynt cyswllt cyntaf mewn Ysbytai a'r effaith gadarnhaol y byddai hyn yn ei chael ar Dtocs.

Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol (Gwasanaethau Oedolion)
Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Susan Elsmore, yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant, Claire Marchant, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Louise Barry, Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Gwasanaethau Oedolion.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Elsmore i wneud datganiad a dywedodd mai dyma'r bumed flwyddyn mae wedi dod i'r pwyllgor hwn. Mae agenda heriol gyda phwysau trwy'r amser, mwy o angen, mwy o gymhlethdod, costau darpariaeth sy'n codi am resymau amrywiol gan gynnwys yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol. Roedd her o ran cynaliadwyedd yn y farchnad ofal ond Mae Caerdydd yn arloesol, creadigol ac mae ganddi bartneriaethau o ansawdd sy'n helpu i gyflawni'r galwon cymhleth mae'n ei hwynebu.

Cafodd yr aelodau gyflwyniad ac wedyn gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau ganddynt;

Cyfeiriodd yr Aelodau at y gymuned ac iechyd meddwl pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a pha mor aml mae pobl yn dibynnu ar ffrindiau i'w cefnogi mewn apwyntiad ac ati a gofynnon nhw a yw hyn wedi'i ystyried. Deallodd y swyddogion bwysigrwydd mynd i'r afael â hyn ac ystyrion nhw y byddai symud at dull lleol yn helpu hyn. Trafododd yr Aelodau bwysigrwydd gweithlu pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a nododd y swyddogion y gwaith oedd ar y gweill i hyrwyddo gofal yn y gymuned fel gofalwr. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet fod mapio bylchau'n bwysig hefyd, roedd cynnig dinas gyfan yn wych ond mae hefyd angen iddo fod yn ddigon yblyg i fod yn bwrpasol i wasanaethu'r holl gymunedau ym mhob rhan o'r ddinas.

Nododd yr Aelodau arbedion Coch a Choch/Oren mewn perthynas â Dysgu ac Anableddau ac roeddent yn bryderus y gallai fod effaith ar wasanaethau i bobl agored i niwed. Dywedodd y swyddogion mai'r ffordd mae'r arbedion yn cael eu cyflawni yw'r hyn sy'n bwysig, mae angen dull ar sail cryfderau; deallon nhw'r pryderon ynghylch iechyd meddwl, mae newid mewn dull o sefydliadol i yn y gymuned o ran cymorth, roedd angen buddsoddi yn y gwasanaethau cymunedol a stopio buddsoddi yn y gwasanaethau sefydliadol; roedd hyn eisoes yn cael ei wneud ac roedd arbedion yn

cael eu gwneud. Defnyddiwyd yr un dull gydag Anableddau Dysgu, roedd yn ymwneud â dull ar sail cryfderau, edrych ar yr hyn sy'n bwysig i unigolion ac adlewyrchu hyn yn y cymorth a gynigir. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod bellach gaffael ariannol a chafodd ei sicrhau gan y tanwariant yn y Gwasanaethau Oedolion.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd symudiad tuag at fwy o dulliau canolfan alwadau ar gyfer gwasanaethau. Dywedodd yr Aelod Cabinet mai dyna’r hyn oedd hi’n ei glywed gan ddefnyddwyr gwasanaeth, roedd yn ymwneud â rhoi’r gwasanaeth mwyaf priodol ar sail anghenion unigol; roedd yn ddull system gyfan gan gynnwys atal, galluogi ac ato., a pheidio â rhoi pobl yn awtomatig yn y system gofal cymdeithasol.

Nododd yr Aelodau gymhlethdodau Anableddau Dysgu ac roeddent yn bryderus na fyddai’r arbedion yn cael eu cyflawni pe na bai modd bodloni anghenion yn y gymuned. Dywedodd y swyddogion eu bod yn gweithio gydag unigolion, mae angen mwy o gymorth ar rai nag eraill, ond yn gyffredinol gallant roi gofal mwy cost-effeithiol trwy weithio yn y ffordd hon ond dan hyn mae angen trefniadau ar waith i gefnogi eraill.

Roedd yr Aelod Cabinet am ddiolch i Christine Salter am y cyfraniad sylweddol mae wedi'i wneud i'r pwyllgor Craffu dros y blynyddoedd.

CYTUNWYD: Bod y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet yn cyfleu arsylwadau’r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

63 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni chafwyd unrhyw rai.

64 : Y FFORDD YMLAEN

Trafododd aelodau y wybodaeth a dderbyniwyd a nodi nifer o broblemau y cytunai’r Cadeirydd fyddai’n cael eu cynnwys yn y llythyrau fyddai’n cael eu gyrru, ar ran y Pwyllgor, i’r Aelodau a’r Swyddogion perthnasol.

65 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

6 Mawrth 2019, 4.30pm, Ystafell Bwyllgor 4, Neuadd y Sir

Daeth y cyfarfod i ben am 7.10 pm